# Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid

## Taflen 1 - Pobl Hŷn

Gaeaf 2010





Mae'r daflen hon ar gyfer unrhyw un sydd yn derbyn gwasanaeth neu a diddordeb mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Ngwynedd. Dyma'r cyntaf o gyfres o daflenni. Pwrpas y daflen hon yw egluro sut bydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yn datblygu er mwyn cefnogi'r rhai sydd angen cymorth i fyw yn annibynnol a diogel.

**Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel**
☎ 01286 679549 • ✉ gcgc@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid

## Pam newid?



Mae angen newid i sicrhau gwasanaethau addas, rŵan ac i'r dyfodol. Mae sawl rheswm dros hyn:

- ➢ Ymateb i beth mae pobl Gwynedd yn ddweud wrthym:
  - o Eisiau aros gartref cyn hired â phosib
  - o Eisiau mwy o gefnogaeth i fyw yn annibynnol
- ➢ Poblogaeth yn heneiddio
- ➢ Y sefyllfa ariannol - darparu gwasanaethau gyda llai o arian.

## Beth fydd yn digwydd?

Mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yn edrych ar y ffordd mae gwasanaethau wedi eu darparu yn draddodiadol ac yn edrych ar ffyrdd newydd i gefnogi pobl i fyw yn annibynnol:

# Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid

## Teleofal



- System ac offer mewn cartref sy'n rhoi rhybudd os yw person mewn peryg, yn sâl neu'n cael codwm
- Rhybuddio o broblemau fel mwg, llifogydd a nwy, ac atgoffa person i gymryd tabledi
- Codi hyder, helpu pobl i fyw gartref yn ddiogel a rhoi sicrwydd fod cymorth ar gael os bydd angen
- Cefnogaeth a thawelwch meddwl i'r unigolyn, gofalwyr a theuluoedd.

# Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid

## Gwasanaeth Galluogi



- ➢ Cefnogaeth i ail-ddysgu sgiliau er mwyn codi hyder pobl i fyw'n annibynnol
- ➢ Gwasanaeth tymor byr yn y cartref gan dîm o weithwyr gofal
- ➢ Gofal, cefnogaeth a therapi i wella gallu'r unigolyn
- ➢ Help i aros gartref neu ddychwelyd adra o ysbyty neu gartref preswyl.



☎ 01286 679549 • ✉ gcgc@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

# Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid

## Tai gyda chefnogaeth a gofal



- ➢ Fflat neu fyngalo i'w brynu neu rentu, gyda cefnogaeth pan mae person ei angen
- ➢ Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel yn eu cartref eu hunain, mor hir â phosib
- ➢ Pob cartref a drws ffrynt ei hun gan sicrhau preifatrwydd
- ➢ Dewis o gyfleusterau a gweithgareddau cymdeithasol ar y safle, gyda mynediad i ofal 24 awr y dydd pan fydd angen.




**Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel**
☎ 01286 679549 • ✉ gcgc@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

# Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid

## Beth mae hyn yn ei olygu?



Mae'r newidiadau yn golygu newid gwasanaethau presennol, gan sicrhau:

- Gwell dewis o wasanaethau addas a hyblyg
- Cefnogi pobl i fyw gartref yn annibynnol, mor hir â phosib
- Helpu pobl i fod yn llai dibynnol ar wasanaethau
- Cydweithio gwell rhwng partneriaid.

*"Dylai gwasanaethau ddim gwneud chi fod yn ddibynnol – gallwn helpu ein hunain a dylem gael help i'n galluogi i wneud hyn"*

**Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol a diogel**
☎ 01286 679549 • ✉ gcgc@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

# Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid

## Pwy sy'n cymryd rhan?



Mae sicrhau gwasanaethau addas i'r dyfodol yn golygu gweithio gydag nifer o bartneriaid gan gynnwys:

- Defnyddwyr gwasanaeth
- Teuluoedd
- Y cyhoedd
- Asiantaethau fel y Gwasanaeth Iechyd
- Adrannau eraill o fewn y Cyngor
- Darparwyr gwasanaethau gofal
- Sector wirfoddol a chymunedol.

*"Mae annibyniaeth yn hynod bwysig – rydan ni gyd eisiau cadw ein hannibyniaeth"*

# Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn newid

## Oes gennych gwestiwn, syniad neu sylw?



Rydym yn croesawu unrhyw gwestiynau, sylwadau neu syniadau sydd gennych. Cysylltwch â ni drwy ysgrifennu, ffonio neu e-bostio:

Uned Gofal Cwsmer
Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl, Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH

☎ 01286 679549
✉ gcgc@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk



* *Mae'r dyfyniadau yn rhai gwir ac wedi deillio o sesiynau ymgynghori gyda chymunedau Gwynedd. Mae'r adroddiad llawn "O Lygad y Ffynnon-Ymestyn Allan at y Gymuned" (Mehefin 2010) ar gael ar safle gwe'r Cyngor.*